Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Mydentist Feidr Fair, Aberteifi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 10 Mai 2023

Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2023





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83504-468-1

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

   - Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
   - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

4. Y camau nesaf ........ 18

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 19

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith ........ 20

Atodiad C - Cynllun gwella ........ 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Mydentist, Feidr Fair, Aberteifi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 10 Mai 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol. Arsylwodd un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ar yr arolygiad hwn.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 17 o holiaduron. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Mae systemau priodol ar waith i gleifion roi adborth, ac mae prosesau ar waith i weithredu ar yr adborth hwn. Gwelsom staff yn gweithio mewn modd proffesiynol, gan ddangos agwedd ofalgar at ofal cleifion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwnaethom argymell y dylai'r practis sicrhau bod gwydr barugog ar ddrws pob deintyddfa er mwyn cynnal urddas a phreifatrwydd cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom staff proffesiynol a gofalgar
- Cafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfan gan gleifion i'n holiadur
- Roedd systemau priodol ar waith i gasglu, adolygu a gweithredu ar adborth gan gleifion.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod mesurau priodol ar waith i roi triniaeth ddiogel ac effeithiol i gleifion, yn unol â'r angen clinigol. Roedd systemau priodol ar waith i nodi risgiau a'u lliniaru cymaint â phosibl, dan oruchwyliaeth briodol rheolwr y practis a'r timau corfforaethol.

Gwnaethom nodi nifer bach o feysydd i'w gwella yn ymwneud â chadw cofnodion a'r cyfnod rhwng archwiliadau pelydr-X i gleifion yn eu harddegau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rydym yn argymell y dylid gwella agweddau ar y broses o gadw cofnodion yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol.
- Rydym yn argymell y dylid cryfhau'r gweithdrefnau ar gyfer y cyfnod rhwng radiograffau i gleifion yn eu harddegau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn lân ac yn drefnus iawn, ac roedd trefniadau atal a rheoli heintiau da ar waith.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis yn cael ei reoli'n dda, a bod prosesau a systemau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol. Roedd y staff wedi cwblhau'r lefelau gofynnol o hyfforddiant yn unol â'r gofynion proffesiynol, ac roedd cyfleoedd ychwanegol yn cael eu cynnig i ddatblygu'r gweithlu ymhellach i ddiwallu anghenion cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd rheolwr y practis yn meddu ar wybodaeth dda am weithrediad y practis o ddydd i ddydd a'i weithlu, yn ôl pob golwg.
- Roedd yn ymddangos bod cyfleoedd da i'r staff gael hyfforddiant a datblygu drwy broses arfarnu gyfredol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal y maent yn ei gael yn y practis hwn. Cafwyd cyfanswm o 17 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn.

Ar y cyfan, roedd yr holl sylwadau yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael yn dda iawn neu'n dda. Roedd rhai o'r sylwadau a wnaed gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn a bob amser yn barod i ateb unrhyw gwestiynau ac yn awyddus i helpu".*

> *"Gwnaeth y staff i mi deimlo'n gyfforddus yn ystod y driniaeth".*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r practis yn canslo apwyntiadau yn aml. Mae angen mynd i'r afael â hyn."*

### Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd yn cael ei arddangos yn yr ardal aros, yn amrywio o ganser y geg i ganllawiau ar frwsio'r dannedd yn dda. Roedd gwybodaeth ar gael am risg smygu, ac roedd gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei harddangos yn y deintyddfeydd. Roedd yr holl wybodaeth yn y ddeintyddfa ar gael yn Gymraeg. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron fod y tîm deintyddol yn trafod hylendid y geg â nhw.

**Gofal Urddasol a Pharchus**
Yn ystod ein harolygiad, gwelsom staff proffesiynol a gofalgar a oedd yn trin cleifion ag urddas a pharch.

Roedd y dderbynfa a'r ystafell aros ar wahân, a oedd yn sicrhau cyfrinachedd rhwng staff y dderbynfa a chleifion. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau, ac roedd gwydr barugog ar ddrysau rhai o'r deintyddfeydd, ond nid pob un.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod gwydr barugog ar ddrws pob deintyddfa er mwyn cynnal urddas a phreifatrwydd cleifion.**

Roedd yn gadarnhaol gweld staff yn cynorthwyo claf â symudedd cyfyngedig yn ardal y brif dderbynfa drwy ddarparu sedd ychwanegol ar ei gyfer.

**Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn**

Dywedodd pob claf a ymatebodd i holiadur AGC ond un wrthym ei fod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, a bod ei hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn y driniaeth.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a bod y costau wedi cael eu hegluro iddynt cyn y driniaeth.

## Amserol

**Gofal Amserol**

Roedd y practis yn defnyddio system apwyntiadau a dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn modd amserol.

Gellid trefnu apwyntiadau cyntaf ar-lein, ond dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf yn cael eu trefnu dros y ffôn. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu brysbennu dros y ffôn yn ystod oriau gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cyngor cywir, a bod apwyntiadau brys ar gael i'r rhai ag anghenion acíwt. Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion fel arfer yn cael eu gweld ar yr un dydd.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cynghori i ffonio 111 am ofal brys y tu allan i oriau. Roedd manylion y gwasanaeth hwn wedi'u harddangos ar yr arwydd y tu allan i'r practis ac roedd y manylion hefyd yn cael eu darparu gan y peiriant ateb.

Dywedodd 11 o'r ymatebwyr i'n holiadur wrthym eu bod wedi ei chael hi'n ‘hawdd iawn’ trefnu apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd y chwe ymatebydd arall wrthym eu bod wedi ei chael hi'n ‘gymharol hawdd’ trefnu apwyntiad. At hynny, dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Cadarnhaodd y staff fod yr asesiad risg clinigol a'r system adalw yn gweithio'n dda i reoli'r sesiynau clinigol yn effeithlon ac yn effeithiol.

## Tegwch

**Cyfathrebu ac Iaith**
Gwelsom fod y practis yn cynnig darpariaeth ddwyieithog addas i'w gleifion. Dywedwyd wrthym fod nifer o gleifion yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y lleoliad yn rhoi'r cyfle i gleifion wneud hyn. Roedd tri aelod o staff y practis yn siarad Cymraeg, a dywedwyd wrthym fod hyn yn helpu'r practis i ddiwallu anghenion iaith cleifion.

Roedd y practis yn annog ei gleifion a'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg, drwy ddefnyddio deunyddiau dwyieithog, fel logo 'iaith gwaith' wrth ddesg y dderbynfa, a rhoi bathodynnau 'iaith gwaith' i siaradwyr Cymraeg y practis eu gwisgo. Gwelsom aelod o staff y dderbynfa yn siarad â chlaf yn Gymraeg, gyda'r claf yn esboniad o'r apwyntiad yn ei ddewis iaith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dewisiadau iaith ac anghenion cyfathrebu eraill yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion er mwyn galluogi'r staff i fynd ati i ddiwallu'r anghenion hynny.

**Er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys anghenion iaith a chyfathrebu eraill, dylai'r practis sicrhau y caiff dewisiadau iaith/cyfathrebu eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.**

O ran cleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, roedd y staff yn ymwybodol o'r llinell iaith, a dywedasant wrthym y byddai'n cael ei defnyddio. Roedd dolen sain hefyd ar gael yn y practis i gleifion â nam ar eu clyw, a dywedwyd wrthym fod prosesau ar waith i gefnogi cleifion â nam ar eu golwg neu eu clyw gyda'u gofal, gan gynnwys caniatáu i ofalwyr cleifion eu cynorthwyo.

**Hawliau a Chydraddoldeb**
Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol a chynhwysfawr drwy Mydentist. Roedd pob aelod o staff y practis wedi darllen a llofnodi'r polisi yn 2022. Roedd y polisi hwn yn cael ei ategu gan hyfforddiant parhaus a oedd ar gael drwy'r darparwr corfforaethol.

Gwelsom enghreifftiau o glaf â symudedd cyfyngedig yn cael ei gynorthwyo gan staff yn ystod yr arolygiad. I gefnogi hyn, roedd un o'r deintyddfeydd wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod, gan olygu y gellid darparu ar gyfer cleifion ag anghenion symudedd ychwanegol.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli Risg**
Roedd pob ardal o'r practis yn ymddangos mewn cyflwr da, ac roedd gweithdrefnau addas ar waith i roi gwybod am unrhyw faterion cynnal a chadw a materion cysylltiedig, a'u huwchgyfeirio.

Roedd asesiadau risg wedi cael eu cwblhau a byddai camau gweithredu'n cael eu hadolygu'n flynyddol drwy system olrhain ddigidol. Byddai rheolwr y practis yn adolygu'r camau gweithredu, dan oruchwyliaeth Mydentist. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn ymdrin â rheoli risg, trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer staff a chleifion, yn ogystal â chynlluniau wrth gefn mewn argyfwng.

Byddai diogelwch tân yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn y practis, drwy asesiad risg a phroses adolygu. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnig darpariaeth yn ystod oriau agor y practis. Gwelsom dystiolaeth o ragofalon tân eraill, gan gynnwys cofnod o brofion larwm tân ac ymarferion gwagio'r adeilad. Roedd arwyddion yn dangos ble roedd yr allanfeydd argyfwng, ynghyd â diffoddyddion tân a oedd yn cael eu cynnal yn flynyddol ac arwyddion dim smygu ym mhob rhan o'r practis.

Er bod tystiolaeth o adolygiad blynyddol o gamau gweithredu presennol yn yr asesiad risg amgylcheddol a'r asesiad risg tân, cynghorwyd y lleoliad y dylai gwblhau adolygiad asesu risg llawn i ystyried unrhyw newidiadau yn y practis, a allai gynnwys newidiadau i gynllun ystafelloedd a symud cyfarpar.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**
Gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau atal a rheoli heintiau a oedd yn cael eu cwblhau'n rheolaidd.

Roedd nyrs ddeintyddol brofiadol yn gyfrifol am arwain trefniadau dihalog yn y practis. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau oriau DPP gofynnol yr hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn ystod eu cylch DPP diwethaf, ac roeddent ar y trywydd cywir i gwblhau'r oriau gofynnol yn ystod eu cylch cyfredol. Roedd hyn yn cael ei fonitro gan reolwr y practis a thimau corfforaethol Mydentist.

Roedd yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn daclus ac yn amlwg yn lân, gan ddilyn llwybr dihalogi budr i lân. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y staff yn cofnodi cylchoedd yr awtoclaf yn briodol a bod tystysgrif arolygu cynnal a chadw ddilys ar waith. Gwnaethom hefyd gadarnhau bod profion rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn, gan gynnwys y peiriant glanhau uwchsain, a'u cofnodi.

Gwelsom fod rhestr wirio ar gyfer glanhau ym mhob deintyddfa, a gwelsom fod y rhestrau hyn wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom statws imiwneiddio rhag Hepatitis B derbyniol ar gyfer staff clinigol y practis.

Roedd gan y practis weithdrefn i'w dilyn ar gyfer anafiadau nodwydd. Roedd y weithdrefn hon yn cael ei harddangos ac roedd yn cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio'r staff at yr adran achosion brys leol a gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

Roedd arwyddion clir yn dangos ble roedd y toiledau yn y practis, yn ogystal â gwybodaeth am hylendid dwylo da. Roedd ardal newid i'r staff, gan gynnwys loceri y gellid eu cloi.

**Rheoli Meddyginiaethau**

Gwnaethom gadarnhau bod cyffuriau brys a chyfarpar dadebru ar gael yn y practis a oedd yn cyrraedd safonau'r Cyngor Dadebru (DU). Roedd yr holl gyfarpar yn cael ei storio'n briodol, yn gyfredol ac ar gael yn hawdd. Roedd y practis yn cynnal gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar hwn, gan gynnwys cyffuriau, ac roedd y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi'n briodol.

Roedd polisi ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol, a gwelsom fod pob aelod o staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol.

Yn y sampl o gofnodion deg claf y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod y broses ar gyfer rhagnodi gwrthfiotigau yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn dau gofnod, nid oedd y rheswm dros ragnodi gwrthfiotigau wedi'i gofnodi.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y rheswm dros ragnodi gwrthfiotigau yn cael ei gofnodi bob amser.**

Gwnaethom gadarnhau bod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio a bod y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod am adweithiau a brofwyd gan gleifion drwy'r cynllun Cerdyn Melyn.

**Diogelu Plant ac Oedolion**

Roedd polisi diogelu ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys siart lif i'r staff ei dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon. Roedd y polisi hwn wedi'i ategu gan arweinydd diogelu clinigol dynodedig yn y practis a gwybodaeth yn cyfeirio staff at yr awdurdod lleol.

Roedd y staff wedi'u hyfforddi i lefel a oedd yn briodol i'w rolau a chawsom wybod am bryder diweddar, lle roedd yr aelod o'r staff wedi dangos y wybodaeth a'r hyder i weithredu ar y pryderon hyn.

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**
Gwnaethom archwilio'r ardaloedd clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol yn y deintyddfeydd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
Gwnaethom edrych ar y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau bod y cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel a gwelsom eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Gwnaethom nodi'r canlynol:

- Roedd y staff deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar radiograffeg
- Roedd polisi radiograffeg ar waith ac roedd y rheolau lleol yn cael eu harddangos
- Roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil diogelu rhag ymbelydredd ar waith a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn ymwneud â defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel a'i gynnal a'i gadw
- Nodwyd y defnydd o radiograffau a chyfiawnhad dros hynny yn y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt, ac roedd ansawdd y delweddau wedi'i gofnodi.

Gwnaethom nodi y gallai'r practis gryfhau'r gweithdrefnau ar gyfer y cyfnod rhwng radiograffau i gleifion yn eu harddegau. Dywedodd y practis y byddai hyn yn cael ei wneud pan fyddai'r lefelau staffio wedi sefydlogi.

**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff y gweithdrefnau ar gyfer y cyfnod rhwng radiograffau i gleifion yn eu harddegau eu cryfhau mewn modd amserol.**

**Gofal Effeithiol**
Gwelsom fod cleifion yn cael gofal a thriniaeth yn unol â'r angen clinigol a'r arferion proffesiynol perthnasol. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer asesu cleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin, a rhoddodd pob un o'r cleifion adborth cadarnhaol am y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael gan y practis.

**Cofnodion y Cleifion**
Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cynnal i safon dda. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion bob amser yn gywir, yn gyfredol ac wedi'u teilwra'n briodol i'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd am fod staff yn defnyddio testun wedi'i ragbaratoi yn anghywir wrth gwblhau cofnodion cleifion.

Rhaid i'r practis sicrhau bod nodiadau cleifion yn gywir, yn gyfredol ac wedi'u teilwra'n briodol i'r claf bob amser.

Gwelsom fod y pecyn cymorth LocSSIP yn cael ei ddefnyddio i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir. Fodd bynnag, nid oedd y defnydd ohono yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.

**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff y defnydd o LocSSIP ei ddogfennu yn nodiadau cleifion bob amser.**

**Fel y nodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, rhaid i'r practis sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu eu cofnodi, a bod pwyslais parhaus ar gadw cofnodion digidol.**

## Effeithlon

**Effeithlon**
Gwnaethom gadarnhau bod y cymysgedd sgiliau priodol ar gael i'r practis, gan gynnwys deintyddion, nyrsys a therapyddion. Roedd staff clinigol o bractisau Mydentist eraill yn yr ardal hefyd yn cefnogi'r practis os byddai angen.

Roedd angen i un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arno gael ei atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd arall. Gwnaethom gadarnhau bod yr atgyfeiriad yn briodol, yn amserol a bod y camau dilynol gofynnol wedi'u cymryd.

Gwnaethom gadarnhau bod triniaethau brys yn cael eu brysbennu a bod modd i'r claf gael ei weld o fewn y cyfnod priodol o amser gan y tîm deintyddol arferol yn y practis. Y tu allan i oriau, roedd manylion am sut i gael gafael ar y gwasanaeth 111 a'r bwrdd iechyd lleol yn cael eu darparu i gleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Roedd y lleoliad yn cael ei oruchwylio gan reolwr y practis, a oedd yn gyfrifol ar y cyd am reoli practis Mydentist arall yn yr ardal leol. Roedd rheolwr y practis yn brofiadol ac yn wybodus am y practis, ei weithrediad o ddydd i ddydd, a'i weithlu.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd tîm ar gyfer y practis cyfan. Roedd cofnodion yn cael eu cadw o gyfarfodydd, ac roedd amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd rheolwr y practis yn cael ei gefnogi gan reolwr rhanbarthol o dîm corfforaethol Mydentist. Roedd yn ymddangos bod cydberthynas gadarnhaol rhwng y practis a'r tîm corfforaethol, a oedd wedi'i hategu gan bolisïau a phrosesau cynhwysfawr yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gofal cleifion.

## Y Gweithlu

**Gweithlu Medrus a Galluog**
Roedd trefniadau recriwtio addas ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio i rolau mewn modd cadarn a phriodol. Roedd hyn yn cynnwys proses sefydlu a phroses arfarnu flynyddol barhaus. Gwelsom fod arfarniadau yn gyfredol ac yn gynhwysfawr.

Gwnaethom gadarnhau bod ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas i gyflawni eu rolau. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeil fel sy'n ofynnol ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei DPP yn y pynciau gofynnol neu'n gweithio tuag at hynny. Roedd rhai o'r staff yn gweithio tuag at DPP mewn pynciau eraill, yn unol â'u nodau ar gyfer datblygiad proffesiynol.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**
Roedd prosesau cynhwysfawr ar waith ar gyfer cael adborth a chwynion gan gleifion, eu hadolygu a gweithredu arnynt.

Gallai cleifion roi adborth yn anffurfiol i reolwr y practis, a ddisgrifiodd y camau a fyddai'n cael eu cymryd i ymateb i'r mater mewn modd amserol. Roedd proses

adborth ffurfiol ar waith, a oedd yn cynnwys cyfeirio cleifion yn briodol at sefydliadau allanol i gael cymorth a chyngor.

Nid oedd unrhyw gwynion diweddar i'w nodi ar adeg yr arolygiad a chafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion am eu profiadau yn y practis.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**
Roedd systemau priodol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y practis yn parhau i gadw cofnodion cleifion yn ddigidol ac ar bapur.

**Rhaid i'r practis ystyried rhoi pwyslais ar gadw cofnodion digidol o fewn cyfnod rhesymol o amser.**

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**
Gwelsom fod y practis yn cwblhau amrywiaeth o archwiliadau clinigol corfforaethol Mydentist. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau ar ragnodi, radiograffeg, a chadw cofnodion. Roedd yr archwiliadau'n cael eu sgorio'n dda a'u cwblhau'n rheolaidd. Gwelsom fod rhywun allanol i'r practis yn helpu'r staff clinigol i gwblhau'r archwiliadau a thrafod eu canlyniadau.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi ceisio cael gafael ar adnoddau archwilio cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan gan AaGIC, a'u cwblhau, ond heb lwyddo

**Cynghorir y practis y dylai ystyried gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau archwilio ar gyfer Cymru gyfan, e.e. gan AaGIC, i ategu ei arferion presennol.**

O ran y staff deintyddol, gwelsom fod y practis yn defnyddio unigolion allanol, er enghraifft yn dilyn archwiliadau clinigol, er mwyn helpu i wella ansawdd drwy ddull cymheiriaid

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**
Roedd cydberthynas ddwyffordd gadarnhaol rhwng y practis a thimau corfforaethol Mydentist, sy'n goruchwylio ac yn cefnogi amrywiaeth o swyddogaethau ansawdd a diogelwch gofal cleifion.

Disgrifiodd y practis gydberthnasau gwaith da â phractisau Mydentist eraill yn y rhanbarth i gefnogi practisau a darparu staff cyflenwi ar eu cyfer lle bo angen er mwyn cynnal gofal cleifion amserol.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **DD/G** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Insert name

## Dyddiad yr arolygiad: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **DD/G** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **Mydentist, Aberteifi**

**Dyddiad yr arolygiad: 10 Mai 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Gwelsom nad oedd paneli gwydr barugog ar ddrws pob deintyddfa yn y practis, sy'n effeithio ar breifatrwydd ac urddas cleifion.**<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau bod gwydr barugog ar ddrws pob deintyddfa. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017<br><br>Rheoliad 15 | Gwnaed cais am hyn gan dîm cyfleusterau'r cwmni | Fel isod | 07/07/2023 |
| **Gwelsom nad oedd anghenion/dewisiadau iaith a chyfathrebu yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion, a allai ei gwneud hi'n anodd darparu gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.** | Rheoliad 13(1)(a) | Bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y practis yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 10 Gorffennaf 2023, lle bydd marciwr A4 yn cael ei gyflwyno i nodi dewis iaith cleifion | | 14/07/23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys anghenion iaith a chyfathrebu eraill, dylai'r practis sicrhau y caiff dewisiadau iaith/cyfathrebu eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.** | | | | |
| **Gwelsom nad oedd y rheswm dros ragnodi gwrthfiotigau wedi'i nodi mewn dau o'r deg cofnod y gwnaethom edrych arnynt.**<br><br>**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion llawn eu cadw mewn perthynas â rhagnodi gwrthfiotigau.** | Rheoliad 13 (3)(a) a Rheoliad 20(1)(a)(i) | Bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod sgwrs glinigol wedi'i dogfennu â phob clinigydd, a bydd archwiliadau gwrthficrobaidd yn cael eu cynnal bob tri mis yn hytrach na phob chwe mis nes y bydd rheolwr y practis yn fodlon bod pob achos o ragnodi gwrthfiotig yn cael ei gofnodi | | Cynnal sgwrs glinigol erbyn 14 Gorffennaf 2023<br><br>Cwblhau'r archwiliad nesaf erbyn 14 Gorffennaf 2023 |
| **Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cadw i safon dda ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd angen cryfhau'r meysydd canlynol:**<br><br>• **Sicrhau bod nodiadau yn gywir, yn gyfredol ac** | Rheoliad 20(1)(a)(i) | Bydd sgwrs glinigol wedi'i dogfennu yn cael ei chynnal â phob clinigydd lle y caiff ei gynghori i beidio â defnyddio templedi wedi'u rhagboblogi a'i annog i ddefnyddio templedi ag is-benawdau a'u cwblhau yn unol â'i ganfyddiadau ar y diwrnod | | 14 Gorffennaf 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| wedi'u teilwra'n briodol i'r claf bob amser<br><br>**Rhaid i'r practis sicrhau bod nodiadau cleifion yn gywir, yn gyfredol ac wedi'u teilwra'n briodol i'r claf bob amser.**<br><br>• **Sicrhau y caiff y defnydd o LocSSIP ei gofnodi yn nodiadau cleifion**<br><br>**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff y defnydd o LocSSIP ei ddogfennu yn nodiadau cleifion bob amser.** | | Caiff y ddogfen LocSSIP ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y practis, a bydd rheolwr y practis yn cynnal gwiriadau rheolaidd | | Yr wythnos sy'n dechrau 10 Gorffennaf 2023 |
| **Gwnaethom nodi y dylai'r practis gryfhau'r gweithdrefnau ar gyfer y cyfnod rhwng radiograffau i gleifion yn eu harddegau. Dywedodd y practis y byddai hyn yn cael ei wneud pan fyddai'r lefelau staffio wedi sefydlogi.** | Rheoliad 13(1) | Caiff canllawiau'r FGDP eu trafod yng nghyfarfod nesaf y practis er mwyn sicrhau y caiff pob radiograff ei gymryd yn nol â'r canllawiau cyfredol. Caiff canllawiau'r FGDP hefyd eu hychwanegu at fwrdd gwaith y clinigydd fel bod modd iddo gyfeirio atynt yn hawdd. | | Yr wythnos sy'n dechrau 10 Gorffennaf 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r practis sicrhau y caiff y gweithdrefnau ar gyfer y cyfnod rhwng radiograffau i gleifion yn eu harddegau eu cryfhau mewn modd amserol.** | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): C Edwards / T Davey / SJ Davies**

**Swydd: Rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad / Rheolwr cyfredol y practis / Swyddog Rheoleiddio**

**Dyddiad: 03/07/2023**